

## CANLLAWIAU AR GYFER CYDLYNWYR ARWEINWYR CYFOEDION YR YSGOLION

Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â'r Cod Ymarfer ar gyfer y Cynllun Arweinwyr Cyfoed a'r Canllawiau ar gyfer Arweinwyr Cyfoed a Darpar Arweinwyr Cyfoed. Mae'n bosib lawrlwytho mwy o wybodaeth, syniadau ac enghreifftiau o arfer da o adran Cydlynnydd Arweinwyr Cyfoed 'FyMangor'.

### 1. Gwybodaeth gefndir

Mae'r canllawiau hyn yn rhai penodol i staff sydd wedi'u pennu i weithio ar y Cynllun Arweinwyr Cyfoed. Bydd gan bob Ysgol o leiaf un aelod staff wedi'i bennu i'r swydd hon. Fodd bynnag, bydd rhai'n pennu staff ychwanegol, aelod staff academiaidd fel rheol, i arwain gyda rhywun arall i'w cefnogi, yn aml o blith y staff gweinyddol.

Bydd y staff sydd wedi'u pennu i weithio ar y Cynllun Arweinwyr Cyfoed yn recriwtio a rheoli carfan o Arweinwyr Cyfoed i helpu myfyrwyr isradd newydd ymgartrefu ym Mhrifysgol Bangor. Gwneir hyn gyda chefnogaeth y Cydlynnydd Cefnogi Cyfoedion, sy'n rheoli'r Cynllun Arweinwyr Cyfoed ar draws y sefydliad.

Gwirfoddolwyr o blith y myfyrwyr yw Arweinwyr Cyfoed sy'n helpu israddedigion newydd i ymgartrefu yn eu bywyd newydd ym Mangor. Fel gwirfoddolwyr, nid oes tâl am y dyletswyddau arferol ond, i gydnabod y cyfleoedd y mae'n ei roi i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd, mae Arweinwyr Cyfoed yn cael pwyntiau profiad tuag at Wobr Cyflogadwyedd Bangor (BEA).

Rheolir y cynllun Arweinwyr Cyfoed yn ganolog gan y Cydlynnydd Cefnogi Cyfoedion, sy'n ymgymryd â'r holl brosesau safonol fel ceisiadau, hyfforddiant, tystlythyrau a gwerthuso ac sydd hefyd yn arwain ar recriwtio. Ar ben hynny, mae Cydlynnydd Arweinwyr Cyfoed ym mhob Ysgol academiaidd sy'n helpu gyda recriwtio, yn ogystal â rhoi'r cynllun ar waith yn ymarferol yn yr Ysgol, gan bennu Arweinwyr Cyfoed i wneud dyletswyddau penodol a neilltuo myfyrwyr newydd ar eu cyfer.

Mae'r garfan Arweinwyr Cyfoed yn cynnwys Arweinwyr Cyfoed newydd (Arweinwyr Cyfoed Tro Cyntaf) a rhai sy'n dychwelyd at y cynllun am yr ail, neu hyd yn oed y trydydd, tro (Uwch Arweinwyr Cyfoed). Defnyddir y term 'Uwch' yn weinyddol i ddynodi Arweinwyr Cyfoed sydd eisoes wedi'u hyfforddi, ac y mae geirda iddynt ar gael yn barod ar ffeil. Mae ganddynt yr un dyletswyddau arferol ag y mae'r holl Arweinwyr Cyfoed yn eu cyflawni ond, oherwydd eu bod yn fwy profiadol, mae llawer o Ysgolion academiaidd yn gofyn am eu barn a'u sylwadau wrth gyllunio'r Wythnos Groeso.

Tra bo'n well gan rai Ysgolion academiaidd gadw at y ddwy lefel a ddisgrifiwyd uchod i'w carfan Arweinwyr Cyfoed, mae eraill yn hoffi ychwanegu trydedd lefel. Gelwir y rhain fel rheol yn Brif Arweinwyr Cyfoed ac maent yn gweithio'n agosach gyda'r staff ac yn cymryd cyfrifoldeb ychwanegol. Gellir gofyn iddynt ddychwelyd i Fangor ychydig yn gynt nag Arweinwyr Cyfoed eraill ac fel rheol maent yn cyflawni tasgau megis: trefnu digwyddiadau;

gweithredu fel arweinydd tîm a rhoi arweiniad i Arweinwyr Cyfoed eraill; pennu myfyrwyr newydd a dyletswyddau i Arweinwyr Cyfoed; casglu ynghyd adnoddau fel pecynnau gwybodaeth, llawlyfrau a chrysau T a'u dosbarthu. Fel rheol mae'r Prif Arweinwyr Cyfoed yn Uwch Arweinwyr Cyfoed, er nad yw hynny'n wir ym mhob achos.

Oherwydd bod y cyfrifoldebau ychwanegol a bennir i Uwch Arweinwyr Cyfoed y tu allan i brif gylch gorchwyl swydd Arweinydd Cyfoed, mae'r telerau y cynigir y dyletswyddau hynny iddynt yn fater rhwng yr Ysgolion Academaidd a'r Arweinwyr Cyfoed. Fodd bynnag, yn ychwanegol at y pwyntiau BEA a roddir i'r holl Arweinwyr Cyfoed, gellir rhoi pwyntiau ychwanegol tuag at y BEA i Uwch Arweinwyr Cyfoed. Yr un modd, gall staff yn yr ysgolion academaidd argymhell rhoi pwyntiau BEA ychwanegol i unrhyw Arweinydd Cyfoed sy'n dangos ymroddiad tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir yn y swydd, boed hynny'n golygu cymryd cyfrifoldebau ychwanegol i lenwi bylchau mewn darpariaeth, neu helpu gyda sefyllfaoedd o natur fwy heriol neu hirfaith. Gellir dyfarnu'r pwyntiau hyn yn ychwanegol at bwyntiau i Brif Arweinydd Cyfoed, os yw hynny'n briodol.

Mae'r Cydlynnydd Cefnogi Cyfoedion Canolog yn rhoi gwybod am gyfleoedd eraill â thâl neu rai gwirfoddol i'r Arweinwyr Cyfoed.

### **Recriwtio Arweinwyr Cyfoed**

**Cyfrifoldeb pob ysgol yw gweithio gyda'r cydlynnydd canolog i recriwtio nifer yr Arweinwyr Cyfoed sydd eu hangen ac i sicrhau bod y rhai sy'n ymgeisio'n addas.**

Dylai cydlynwyr ysgol wneud y canlynol:

- anelu at recriwtio 1 Arweinydd Cyfoed i bob 5 myfyriwr newydd.
- dosbarthu ac arddangos gwybodaeth recriwtio.
- annog ymgeiswyr newydd tebygol i fynd i un o'r sesiynau gwybodaeth a gynhelir yn ganolog.
- rhoi gwybod i ymgeiswyr newydd posibl am yr ymrwymiad a ddisgwylir gan Arweinwyr Cyfoed, yn arbennig rhai na fydd yn mynd i sesiwn a gynhelir yn ganolog.
- arsylwi Arweinwyr Cyfoed ar waith, a gwahodd y rhai yr ystyrir yn effeithiol i ddychwelyd i'r cynllun.
- gwirio rhestrau Arweinwyr Cyfoed posibl, a rhoi gwybod i'r cydlynnydd canolog am unrhyw rai nad ydynt yn addas, a chadarnhau y derbynnir y rhai a ystyrir yn addas.
- bod yn ddethol - weithiau mae'n well cael ychydig yn llai o ran nifer na derbyn ymgeiswyr anaddas.
- atgoffa ymgeiswyr o'r angen i gofrestru ar gyfer hyfforddiant Arweinwyr Cyfoed, a mynd iddo.

Er mwyn eich helpu yn hyn o beth, bydd y Cydlynnydd Cefnogi Cyfoedion yn:

- dosbarthu'r holl wybodaeth berthnasol i gydlynwyr a myfyrwyr ysgolion fel bo'n briodol.
- cynnal sesiynau gwybodaeth canolog i ddarpar Arweinwyr Cyfoed Tro Cyntaf newydd gan egluro ynddynt beth y disgwylir i Arweinwyr Cyfoed ei wneud.
- darparu ffurflenni cais ar-lein i Arweinwyr Cyfoed Tro Cyntaf ac Uwch Arweinwyr Cyfoed.
- gofyn am eirida\* i bob Arweinydd Cyfoed Tro Cyntaf.
- gwirio cofnodion disgyblu'r brifysgol ar gyfer yr ymgeiswyr.
- rhoi cyfarwyddyd gyda recriwtio a dewis pe bai problemau'n codi.
- rhoi gwybod i gydlynwyr ysgol am ymgeiswyr anaddas, a rheoli'r broses wrthod ar y cyd gyda nhw. Gwrthodir ymgeiswyr ar sail y dulliau gweithredu canolog, a gallai hyn olygu derbyn geirda gwael, neu wrthod yn ôl cyngor swyddogion disgyblu'r Brifysgol wrth wirio cofnodion disgyblu darpar Arweinwyr Cyfoed.
- Cynghori a chefnogi cydlynwyr ysgol ynghylch gwrthod ymgeiswyr newydd, neu dynnu Arweinwyr Cyfoed cyfredol o'r cynllun os bydd problemau'n codi, neu os bydd problemau'n dod i sylw'r ysgol academaidd. Gallai hyn gynnwys unrhyw beth sy'n dynodi: eu hanaddasrwydd i ymrwymo'n llawn i'r rôl; ymddygiad a fyddai'n eu gwneud yn anaddas i ddibynnu arnynt gefnogi eraill; ymddygiad sy'n awgrymu na fyddent yn esiampl ac yn llysgennad da i'r brifysgol; materion personol lle gallai ymgymryd â'r rôl fod yn o anfantais i'w hastudiaethau neu eu lles.
- rhoi gwybod i gydlynwyr ysgolion am Arweinwyr Cyfoed posibl, a'u datblygiad gyda'r dulliau gweithredu.
- rheoli hyfforddiant gorfodol yr holl Arweinwyr Cyfoed newydd.
- rheoli hyfforddiant dewisol Uwch Arweinwyr Cyfoed.

Er mwyn hwyluso recriwtio dethol rydym yn awgrymu i chi ystyried mabwysiadu rhai o'r strategaethau canlynol, neu hyd yn oed pob un ohonynt:

- cynnal sesiynau gwybodaeth recriwtio mewnol ar gyfer ymgeiswyr newydd, gan ddisgrifio sut y gweithredir y cynllun yn yr ysgol.
- annog yn benodol geisiadau gan fyfyrwyr rydych yn teimlo sy'n dangos y nodweddion personol angenrheidiol.
- gwirio cofnodion tiwtorial y myfyrwyr, ac unrhyw gofnodion eraill a gedwir yn yr ysgol
- ceisio barn staff perthnasol yn yr ysgol er mwyn annog ceisiadau, ac er mwyn gwirio rhestrau a ddarperir gan y cydlynnydd canolog. Mae hyn yn arbennig o bwysig os nad yw eich swydd yn dod â chi i gysylltiad ag ymgeiswyr newydd.
- defnyddio Arweinwyr Cyfoed presennol dibynadwy i helpu i recriwtio ymgeiswyr newydd posibl.
- sefydlu proses ymgeisio fewnol lle rydych yn dewis yr ymgeiswyr gorau.
- cynnal sesiynau adolygu yn ystod yr hydref i helpu i asesu effeithiolrwydd Arweinwyr Cyfoed presennol, gyda'r bwriad o recriwtio Uwch Arweinwyr Cyfoed.

Ar ôl cwblhau'r broses recriwtio, bydd y Cydlynnydd Cefnogi Cyfoedion yn rhoi gwybod i chi pwy sydd ar gael i helpu fel Arweinydd Cyfoed.

## 2. Gweithredu rhaglen effeithiol yn ystod yr Wythnos Groeso

Mae Cydlynnydd yr Ysgol yn gyfrifol am bennu dyletswyddau i'r Arweinwyr Cyfoed er mwyn cefnogi Rhaglen Gynefino'r Ysgol. Mae'r gwaith hwn yn aml yn golygu rôl hwylusydd a wneir gyda chefnogaeth gan gydweithwyr ac, yn yr ysgolion sy'n eu penodi, Prif Arweinwyr Cyfoed.

Dylai Cydlynwyr Ysgol wneud y canlynol:

- cynllunio amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol yr Ysgol i ychwanegu at raglen gynefino ffurfiol yr Ysgol.
- pennu grŵp bychan o tua 5 o fyfyrwyr newydd i bob Arweinydd Cyfoed eu croesawu - neu os yw'n well gennych weithio gyda'r Arweinwyr Cyfoed mewn parau, pennu 10 o fyfyrwyr newydd i 2 Arweinydd Cyfoed.
- hwyluso cyswllt rhwng Arweinwyr Cyfoed a myfyrwyr newydd cyn iddynt gyrraedd y brifysgol.\*\*
- pennu Arweinwyr Cyfoed i helpu gyda sesiynau cynefino ffurfiol yr Ysgol
- pennu Arweinydd Cyfoed i fod yn gyswllt ar y ffôn ar gyfer y Cydlynnydd Cefnogi Cyfoedion yn ystod y Penwythnos Cyrraedd.
- cynnal cyfarfod i Arweinwyr Cyfoed cyn y Penwythnos Cyrraedd i bennu'r canlynol i bob Arweinydd Cyfoed:
  - Llawlyfr Arweinwyr Cyfoed.
  - Crys T Arweinydd Cyfoed.
  - Manylion neuaddau preswyl i'w grŵp o fyfyrwyr newydd.
  - Rhaglen Wythnos Groeso'r Ysgol a'r sesiynau a bennwyd iddynt.
  - Unrhyw wybodaeth arall am yr Ysgol sydd ei hangen e.e. newid dewisiadau modiwlau, llawlyfr newydd etc.
- cwrdd ag Arweinwyr Cyfoed yn ystod yr Wythnos Groeso i fonitro cynnydd, gwirio nad ydynt yn wynebu problemau y tu hwnt i'w rôl, a'u hatgoffa i gynnig cefnogaeth ar ôl yr Wythnos Groeso. \*\*\*
- parhau i gwrdd ag Arweinwyr Cyfoed a'u cefnogi ar ôl y Wythnos Groeso.
- cefnogi a chynghori Arweinwyr Cyfoed a myfyrwyr newydd ar faterion yn ymwneud ag Arwain Cyfoedion.

Er mwyn eich helpu i gael Wythnos Groeso effeithiol, bydd y Cydlynnydd Cefnogi Cyfoedion yn:

- Dosbarthu cyfarwyddiadau i'ch galluogi i lawrlwytho manylion ystafelloedd mewn Neuaddau Preswyl cyn y Penwythnos Cyrraedd.
- Sicrhau bod crysau T a llawlyfrau Arweinwyr Cyfoed yn cael eu dosbarthu i chi mewn da bryd ar gyfer y Penwythnos Cyrraedd.
- Cynnig cyngor ac arweiniad os oes angen.

Er mwyn gweithredu rhaglen Arweinwyr Cyfoed lwyddiannus, rydym yn awgrymu i chi ystyried mabwysiadu rhai o'r strategaethau canlynol:

- cynnal digwyddiad cymdeithasol / ffurfio grŵp i'r Arweinwyr Cyfoed er mwyn iddynt ddod i adnabod ei gilydd a gweithio'n well fel grŵp.
- rhoi gwybodaeth sy'n benodol i ysgolion a/ neu sesiynau hyfforddi i wneud yn siŵr bod yr Arweinwyr Cyfoed yn ymwybodol o drefniadau'r Wythnos Groeso, a pha wybodaeth mae'r myfyrwyr newydd wedi'i derbyn, gan bwysleisio'n benodol elfennau sydd wedi newid ers y flwyddyn flaenorol.
- cynllunio'r Wythnos Groeso yn ystod tymor yr haf fel y gellir dosbarthu manylion cyn gwyliau'r haf, ac annog Arweinwyr Cyfoed i helpu gyda

hyn - mae'n eu hysgogi, yn eu galluogi i ddatblygu mwy o sgiliau cyflogadwyedd, ac yn ychwanegu safbwynt y myfyriwr ar lwyddiant (neu i'r gwrthwyneb) y digwyddiadau.

- cynllunio gweithgareddau cymdeithasol sy'n ystyried amrywiaeth y garfan o fyfyrwyr newydd, ac sy'n darparu amrywiaeth o weithgareddau a fydd yn apelio at bawb. Rydym ni'n annog yn benodol ddiwyddiadau nad ydynt yn canolbwyntio ar alcohol a / neu sy'n estyn croeso i ehangder yr amrywiaeth o fyfyrwyr. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer categorïau penodol o fyfyrwyr, megis myfyrwyr rhyngwladol, myfyrwyr hŷn, myfyrwyr cydanrhydedd a myfyrwyr sy'n byw yn lleol.
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Arweinwyr Cyfoed am unrhyw newidiadau neu fanylion ychwanegol yn ystod gwyliau'r haf.
- cynnig cyfrifoldeb ychwanegol i'r Uwch Arweinwyr Cyfoed; gallent fod yn ffynhonnell gwybodaeth werthfawr ac yn gefnogaeth i chi ac Arweinwyr Cyfoed Tro Cyntaf.
- dosbarthu taflen wybodaeth neu lyfryn am Arweinwyr Cyfoed i fyfyrwyr newydd. Gallai hyn gynnwys manylion am sut mae'r cynllun yn gweithredu yn eich Ysgol, manylion cydlynwyr, digwyddiadau Arweinwyr Cyfoed a phroffiliau bychain o'r Arweinwyr Cyfoed.
- sefydlu ac annog defnydd o gyfathrebu da i alluogi i Arweinwyr Cyfoed gysylltu â'i gilydd, yn ogystal â'r myfyrwyr newydd, er enghraifft:
  - hysbysfwrdd neu dyllau colomennod yn yr Ysgol i Arweinwyr Cyfoed eu defnyddio.
  - Ystafell neu bwynt gwybodaeth gydag Arweinwyr Cyfoed yno.
  - ffôn symudol Arweinydd Cyfoed, y mae un o'r Arweinwyr Cyfoed ar system rota yn ei gario gyda nhw drwy'r amser (mae hyn yn rhoi'r opsiwn i Arweinwyr Cyfoed beidio â rhoi rhifau ffôn personol os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny).
  - tudalen Facebook Arweinwyr Cyfoed sydd ar agor i Arweinwyr Cyfoed a myfyrwyr newydd yn unig.

Mae'r Cydlynnydd Cefnogi Cyfoedion ar gael am gyngor ac arweiniad is ar bob elfen o Arwain Cyfoedion, a gellir cysylltu ag ef/hi ar [peerguidng@bangor.ac.uk](mailto:peerguidng@bangor.ac.uk) neu 01248 382072 neu edrych ar y wybodaeth ar 'insideBangor'.

### **Nodiadau**

\*Gofynnir i ymgeiswyr roi manylion canolwr y tu allan i'r Brifysgol, ac eithrio yn achos rhai Myfyrwyr Rhyngwladol, lle mae'n anodd cael geiradon addas am gymeriad. Yn yr achosion hyn, mae'n bosibl enwi staff yn yr ysgol academiaidd. Cysylltwch â'r Cydlynnydd Cefnogi Cyfoedion canolog i gael mwy o gyfarwyddyd am hyn.

\*\* Gellir gwneud hyn drwy lythyr, e-bost neu drwy ffonio mor fuan ag y cadarnheir llefydd. Mae'r tîm rheoli Cofnodion wedi cadarnhau nad oes problem ynghylch rhyddhau manylion cyswllt personol i Arweinwyr Cyfoed oherwydd:

- rhoddir gwybod i bob myfyriwr newydd am y cynllun, a rhoddir cyfle iddynt beidio â chymryd rhan
- mae pob Arweinydd Cyfoed wedi cael geirdaon a hyfforddiant - ymdrinnir â chyfrinachedd yn yr hyfforddiant
- Pan roddir manylion i Arweinwyr Cyfoed, cânt eu hatgoffa eu bod at ddibenion Arweinwyr Cyfoed yn unig

\*\*\* Bwriad y gefnogaeth hon i fyfyrwyr newydd yw hwyluso'r ymgartrefu ym Mangor, ac ar ôl yr wythnos gyntaf, disgwylir y bydd y gefnogaeth hon yn lleihau'n bur gyflym. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu cydbwysu gydag anghenion y rhai sy'n cymryd ychydig yn hwy i ymgartrefu. Caiff Arweinwyr Cyfoed eu hannog i gadw lefel o gefnogaeth 'fwy llac', llai trwm tra bo'r myfyrwyr newydd yn dymuno hynny, ond dylent gadw mewn cof yr angen i drosglwyddo achosion anodd i staff priodol fel y tynnir sylw ato yn yr hyfforddiant.